

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeedig):

Cyfarfod y Cyngor - 21fed Medi 2016 - Rhifau Cofnod 45-57

Pwyllgor Cynllunio - 21fed Medi 2016 - Rhifau Cofnod 21-25

3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeedig).

4. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWEITHIWR IEUENCTID CYMUNEDOL

Ymhellach i Gofnod Rhif 50 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2016, croesawu Ms Bethan Bensley, Gweithiwr Ieuentid Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych.

5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – MARINE DRIVE A TYNEWYDD ROAD, Y RHYL – GWAHARDDIAD AR AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO

Derbyn a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i'r Gorchymyn Traffig arfaethedig uchod (copi'n amgaeedig).

6. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

7. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) (Diwygio) 2016

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref ar ofynion ymgynghori newydd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio mwy ac i benderfynu ar broses i'r Cyngor Tref ddelio â nhw.

8. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

11. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.